| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cabinet** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **27 Mai 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill/ Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cyllid** |

---

**1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2014/15. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai.

**2. Beth yw’r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?**

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor a chadarnhau’r cyllidebau gwasanaeth a gytunwyd ar gyfer 2014/15.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod yr aelodau'n nodi'r gyllideb ar gyfer 2014/15 a chynnydd yn erbyn strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

**4. Manylion am yr Adroddiad**

Mae’r adroddiad yn rhoi crynodeb o gyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2014/15 (**Atodiad 1**). Mae cyllideb refeniw net y Cyngor yn £188 miliwn (£192 miliwn yn 2013/14). Ar yr adeg hon o'r flwyddyn nid oes unrhyw amrywiannau i adrodd arnynt. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn yr adroddiad nesaf pan fydd effaith y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn 2013/14 wedi cael ei gwblhau.

Mae **Atodiad 2** yr adroddiad yn dangos yr arbedion a gytunwyd arnynt am y flwyddyn. Cymerir y gellir cyflawni’r cyfan ond byddant yn cael eu hasesu'n barhaus trwy gydol y flwyddyn.

**5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheolaeth effeithiol o gyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor a chyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn sylfaen i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Yn ystod y cyfnod hwn nid oes unrhyw amrywiannau i'r adroddiad. Mae sefyllfa 2013/14 yn cael ei chwblhau a bydd yn llywio adroddiad alldro mis Mai a gyflwynir i'r Cabinet ym mis Mehefin. Cyfanswm cyllideb gorfforaethol a gwasanaeth net yw £124 miliwn (£128 miliwn y llynedd).

Mae'r gyllideb Cyllid ac Asedau yn cynnwys cynnydd yn y gyllideb o £1.5 miliwn gan fod y grant penodol ar gyfer PFI wedi cael ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw ac felly mae bellach yn rhan o gyllideb sylfaenol y cyngor.

Er nad oes unrhyw amrywiannau i adrodd arnynt, ar hyn o bryd rhagwelir y bydd Gwasanaeth yr Amgylchedd a Phriffyrdd yn wynebu llawer o bwysau a risgiau yn 2014/15 a fydd yn gofyn am gamau rheoli i aros o fewn y gyllideb gyffredinol. Mae'r rhan fwyaf o'r pwysau hyn hefyd wedi digwydd yn 2013/14 ond wedi eu gwrthbwyso yn bennaf drwy ddefnyddio eitemau unwaith ac am byth a chronfeydd wrth gefn. Y prif feysydd sy'n peri pryder yw:

- Mae yna bwysau sylfaenol o fewn y Gwasanaeth Cludiant Ysgol. Ar gyfer 2014/15 mae hyn yn debygol o fod oddeutu £270 mil
- Mae'r gostyngiad mewn incwm o barcio a welwyd yn ystod 2013/14 (yn bennaf yn y Rhyl a Phrestatyn) yn debygol o barhau. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu i nodi cynigion posibl i liniaru effaith
- Mae'r gyllideb Cynnal y Gaeaf yn ddigonol ar gyfer gaeaf 'normal' yn unig. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi gorfod defnyddio'r rhan fwyaf o Gronfa Wrth Gefn Cynnal y Gaeaf yn 2013/14 i dalu am y gorwariant yn ymwneud â'r eira a chlirio i fyny ym mis Ebrill 2013. Y canlyniad yw y bydd gaeaf difrifol yn cael effaith uniongyrchol ar y canlyniad a ragwelir ar gyfer y gwasanaeth.
- Mae yna ddiffyg parhaus o £50 mil mewn incwm gosodiadau sy'n ymwneud â Gosodiadau Arfordirol oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth Gwasanaeth yr Amgylchedd a Phriffyrdd.

**Cyllidebau corfforaethol** – mae'r gyllideb ariannu cyfalaf wedi cynyddu gyda chyllid grant Menter Fenthyca Llywodraeth Cymru yn trosglwyddo i GCR ar gyfer benthyca darbodus Priffyrdd.

Rhagwelir y bydd cronfeydd arian wrth gefn y **Cynllun Corfforaethol** yn £15.3miliwn erbyn diwedd 2013/14. Mae'r Cynllun yn gwneud cynnydd a bydd yn cael ei adolygu yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf i gymryd i ystyriaeth y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn a rhagdybiaethau diweddaraf o safbwynt costau prosiect a phroffil gwariant, derbynebau cyfalaf, arian a benthyca darbodus.

Y **Cyfrif Refeniw Tai (CRT)**. Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio cynnydd mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £163mil. Mae'r gyllideb refeniw yn tybio y bydd £943 mil yn cael ei ddefnyddio i gyllido gwariant cyfalaf. Mae rhagolygon gwariant y Cynllun Cyfalaf Tai yn £6.1miliwn. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ffurfiol ar ddod a'r system Cymhorthdal Tai yng

Nghymru i ben yn ddiweddar ac mae’r Cyngor yn datblygu ei ymatebion. Bydd aelodau etholedig yn cyfrannu at yr ymgynghoriad.

**Rheoli’r Trysorlys** - Ar ddiwedd mis Ebrill, roedd cyfanswm benthyciadau’r cyngor yn £141.648miliwn ar gyfradd gyfartalog o 5.63%. Roedd balansau buddsoddi yn £32.2miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.63%.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor wedi ei amgáu fel Atodiad 3. Mae’r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £24.6miliwn heb unrhyw wariant hyd yma. Hefyd wedi ei gynnwys yn Atodiad 3 mae’r gwariant arfaethedig o £14.4miliwn ar y **Cynllun Corfforaethol**.

Mae **Atodiad 4** yn rhoi diweddariad ar y prif brosiectau yn y Cynllun Cyfalaf.

**7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd am y penderfyniad?**

Cyflwynwyd crynodeb o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i’r Cyngor i gefnogi’r arbedion yn y gyllideb eleni.

**8. Pa ymgynghori a wnaed gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Cyn eu cymeradwyo gan y Cyngor Sir, cytunwyd ar yr arbedion gyda Phenaethiaid Gwasanaeth ac Aelodau Arweiniol, cyflwynwyd mewn gweithdai cyllideb ar gyfer aelodau a dosbarthwyd i staff. Cafodd y cynigion i fantoli'r gyllideb eu trafod yn fanwl yn y gweithdai i aelodau a rhoddwyd y cyfle i’r aelodau godi materion cyn i'r adroddiad terfynol fynd i'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi derbyn diweddariadau rheolaidd gan fod ganddo rôl oruchwylio mewn perthynas â phroses y gyllideb.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae’n bwysig bod gwasanaethau’n parhau i reoli cyllidebau’n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben yn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa gostyngiadau angenrheidiol yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

**10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a bydd methu cyflawni'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli cyllidebol effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol.